CYNGOR TREF FFESTINIOG

Swyddfa'r Cyngor 5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog Gwynedd LL41 3ES
✍ **01766 832398**
cyngortrefffestiniog@tiscali.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL O'R CYNGOR GYNHALIWYD NOS IAU 7fed o RAGFYR 2006 YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

Copi Drafft

CADEIRYDD : Cynghorydd David Lloyd Hughes

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: H. Emyr Jones, Arwel Jones, Adelyn Ellis, Rhian Williams, Mel Goch ap Meirion, Arthur H. Williams, Dafydd G. Dafis, Margaretta Young-Jones, Agnes Edwards, Morfydd Lloyd, Mohammad Tahla,
Eddie Roberts a George Hughes.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Linda A.W.Jones.

Cymerwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod olaf y Cyngor yn 2006. Diolchodd y Cadeirydd i'r Lleng Prydeinig am eu gwahoddiad i gymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Cofio a hefyd i'r Ficer am y gwasanaeth yn Eglwysi Dewi Sant a Sant Mihangel. Diolchodd i Tommy a Peter Roberts am eu gwaith yn gosod y goleuadau Nadolig ac i Mr Chris Joyce a Mr Rhodri ap Dafydd o gwmni Huws Gray-Fitlock am eu cymorth wrth osod y goeden Nadolig. Diolchodd hefyd i Radio Cymru, Radio Bro Blaenau a Blaenau Bendigedig am eu gwaith. Darllenodd lythyr o ddiolch gan Blaenau Bendigedig yn diolch i'r Cyngor Tref am y cydweithrediad er mwyn cael goleuadau werth chweil i'r dref eleni. Diolchodd hefyd i'r corau meibion a chymysg a chorau'r ysgolion, seindorf y Royal Oakley a phawb a gymerodd rhan ar y noson.

6929/12/06 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Arwel Jones - Ceisiadau Cynllunio, YPI
Cynghorydd Rhian Williams - Ysgol Manod
Cynghorydd George Hughes - Heddlu, Yr YPI a Chais Cynllunio Rhif NP5/59/524B

6930/12/06 MATERION BRYS

Derbyniwyd llythyr yn y Gymraeg gan y Cynghorydd Mohammad Tahla, yn datgan ei ymddiswyddiad o'r Cyngor Tref gan iddo fod ar fin ymfudo i ardal Cei Newydd, Ceredigion. Diolchodd y Cynghorydd Tahla i'r Cynghorwyr Tref am y pleser o'u cwmni a gobeithiodd i'r Cyngor elwa rhywbeth o'i bresenoldeb ef mewn cyfarfodydd. Llongyfarchwyd y Cynghorydd am safon ei Gymraeg a ddiolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith fel aelod o'r Cyngor Tref. Dymunwyd pob hapusrwydd iddo ef a'i deulu yn eu cartref newydd.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

6931/12/06 MATERION HEDDLU

'Roedd y Rheolwr Rhawd Gymunedol Dewi Wynne a Miss Irene Thomas, gwirfoddolwr gyda'r heddlu, yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedodd yr Heddwas bod yr Heddlu ym Mlaenau Ffestiniog yn gwneud yn dda gyda gostyngiad o 9.6% mewn materion troseddol i gymharu â llynedd. Mae cyfradd datgeliad Blaenau Ffestiniog yn 60.6%.

Ar hyn o bryd mae'r nifer o heddweision yn y dref yn aros fel y mae ond mae newidiadau ar y gweill. Mae rhybuddion wedi bod yn y cyfryngau ynglyn â thoriadau a fwriedir yn nifer o heddweision ar gael gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae bygythiad os na fydd cynyddiad yn y dreth cyngor bydd gorfodaeth torri'r nifer a gyflogir gan yr heddlu. Cafwyd trafodaeth frwdfrydig ynglyn â'r pwnc hwn a dywedwyd ei bod yn anffodus mai ateb Mr Richard Brunstrom bob tro mae'n hwynebu toriad mewn cyllid yw codi'r dreth cyngor. Dywedwyd ei bod yn anodd cael cydbwysedd rhwng toriad yn y gwasanaeth neu doriad mewn swyddi pan mae costau yn codi ond ei bod yn rhesymol i'r Cyngor ddweud nad yw am golli swyddi. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn tynnu sylw Mr Brunstrom at sylwadau'r Cyngor Tref pan fydd yn mynychu cyfarfod cyhoeddus ble bydd Mr Brunstrom yn rhoddi anerchiad yn fuan. Gwnaethpwyd cynnig gan gynghorydd bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r toriadau hyn ac yn ysgrifennu at y Cynulliad i ddatgan eu barn ac eiliwyd hyn gan y Cyngor.

Cafwyd gwybodaeth gan yr Heddwas y bydd croesfan yn cael ei chodi i groesi'r A496 o ardal Fron Fawr tuag at y Parc Sglefrio ym mis Ionawr. Dywedodd cynghorydd wrth y Cyngor bwyso am groesfan yn y man yma er rhai blynyddoedd a gobeithiodd y bydd wedi ei leoli cyn uwchraddio'r A496. Dywedodd yr Heddwas y bydd yn pwyso am gael uwchraddio'r groesfan i groesfan Puffin.

Cafodd yr heddlu noson ddistaw ar Noson Goleuo 'Stiniog gyda dim ond un yn cael ei arestio am wneud difrod i ffenestr Gwesty'r Frenhines. Cafwyd gwybodaeth bod dyn lleol wedi ei garcharu yn ddiweddar am droseddau i wneud a chyffuriau. Gobeithir y bydd rhywfaint o'r arian a ddarganfuwyd yn ei gartref yn cael ei roddi tuag at y gost o gamera CCC i'r dref.

Cafwyd gwybodaeth y bydd angen perswadio'r cwmni sydd yn rhedeg atomfa Trawsfynydd i roddi'r tir a addawyd ar gyfer clwb beiciau modur. Mae'r clwb wedi derbyn llythyrau cefnogaeth gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC a Mr Elfyn Llwyd AS a byddent yn ymgymryd ag astudiaeth dichonolrwydd yn fuan.

Copi Drafft

Adroddodd yr Heddwas i'r ffordd gael ei chau yn Ffestiniog ar gyfer Ffair Llan er nad oedd ond tri stondin ar gael yna. Teimlodd yr Heddwas ei bod yn beryglus iawn yn y pentref ar y diwrnod a ni fydd yn fodlon cael unrhyw ffordd ar agor flwyddyn nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosib cael asesiad risg ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, yr Heddlu a'r Cyngor Tref ynglyn â'r sefyllfa yn Ffestiniog.

Mae'r gwaith o ail-wynebu'r A470 yn symud ymlaen yn dda heb drafferthion hyd yn hyn.

Mae'r paratoadau mewn llaw gan Ysgol y Moelwyn ar gyfer cynhyrchu'r DVD ynglyn â'r cardiau melyn a fydd yn cael ei dangos yn ysgolion Gwynedd a'r cwbl sydd heb ei gwblhau yw'r ffilmio.

Cafwyd gwybodaeth ynglyn â phryderon trigolion Ffordd Manod ynglyn â'r bwriad o osod llinellau melyn dwbl. Gofynnwyd a fydd yn bosib cael man parcio i gefn rhai o'r tai yn Ffordd Manod a amharir arnynt. Penderfynwyd cael cyfarfod gyda'r Heddlu, Cyngor Tref a'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru ynglyn â hyn ar ôl y Nadolig.

Cafwyd gwybodaeth bod cwynion wedi eu derbyn bod pobl yn parcio eu ceir ger mynedfa'r orsaf ambiwlans ac i hyn greu trafferthion pan gaiff yr ambiwlans ei galw allan. Dywedodd yr Heddwas iddo gysylltu â'r adran briffyrdd i geisio atal parcio yn y man hwn.

Mae cynllun Daliwch y Deliwr yn cael ail lansiad yn y cyfryngau'r wythnos nesaf a gobeithir cael parhad i'r llwyddiant.

Yn dilyn cyfarfod ynglyn â Hafan Deg cafwyd gwybodaeth bod fflat cymunedol yw sefydlu ar y stad a gobeithir cael cae chwarae ar gyfer plant yno. Mae Cymdeithas Tenantiaid bellach wedi ei sefydlu yno. Cafwyd gwybodaeth gan y Cadeirydd ynglyn â thrafferthion gyda diffyg arwyddion ynglyn â rhifau ar y stad hon a dywedwyd i'r diffyg yma gael ei dynnu at sylw Cyngor Gwynedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Heddwas a Miss Thomas am fynychu'r cyfarfod a dymunodd Nadolig Llawen iddynt.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at y Cynulliad ynglyn â'r bygythiad toriadau gan Mr Richard Brunstrom.

6932/12/06 <u>DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 9fed o DACHWEDD 2006</u>

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Arthur H Williams yn eilio gyda chywirdeb ar gofnod 6910 i'r penderfyniad gael ei wneud oherwydd bod rhaff tu fewn yn fwy addas i atal fandaliaeth. Ar gofnod 6905 cadarnhaodd y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion bod yr astudiaeth dichonolrwydd wedi ei gwblhau ac ymddiheurodd os nad oedd wedi gwneud hyn yn eglur yn ystod ei adroddiad i'r Cyngor.

Copi Drafft

6933/12/06 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ANARFEROL 18fed o HYDREF 2006

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Rhian Williams yn cynnig a'r Cynghorydd Eddie Roberts yn eilio

6934/12/06 SEDD WAG YN WARD BOWYDD A RHIW

Cais drwy lythyr wedi ei dderbyn gan Mrs Ceinwen Ll. Humphreys, Machros, Sgwâr Oakley, Blaenau Ffestiniog yn datgan ei diddordeb mewn cynrychioli ward Bowydd a Rhiw ar Gyngor Tref Ffestiniog

PENDERFYNIAD: Ar bleidlais y mwyafrif cyfetholwyd Mrs Ceinwen Lloyd Humphreys fel cynghorydd ar gyfer ward Bowydd a Rhiw.

6935/12/06 ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD CYMRU

Cafwyd copïau o gynlluniau yn dangos y dref sydd yn bodoli a'r cynigion newydd ynglyn â newidiadau i waharddiadau parcio ar y gefnffordd A470 ym Mlaenau Ffestiniog. Y prif newidiadau i'r cynllun blaenorol yw'r cynnig i osod gwaharddiadau 'ar unrhyw adeg' (llinellau melyn dwbl) yn y mannau ble mae llinellau melyn sengl ar y pryd. Mae'r cyfnod y gellir aros ar y stryd wedi ei ddangos ar y cynllun fel 45 munud i gymharu â'r 60 munud sy'n bodoli. Y rheswm am gyflwyno'r newidiadau yw gwella diogelwch wrth leihau tagfeydd a rhwyddhau symudiadau traffig trwy'r dref.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gofyn am gael cyfarfod i drafod cais trigolion Ffordd Manod yn y flwyddyn newydd.

6936/12/06 CEISIADAU CYNLLUNIO

Datgan Diddordeb Cynllunio Cyngor Gwynedd

Ni fu'r Aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, Cynghorwyr Arwel Jones, yn bresennol yn ystod unrhyw benderfyniad a phleidlais ynglyn â cheisiadau cynllunio.

Mae'r ceisiadau isod wedi cael eu derbyn rhwng cyfarfod 9fed o Dachwedd 2006 a chyfarfod 7fed o Ragfyr 2006

a) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0206/03/LL

Hen Orsaf Heddlu	Newid defnydd o fod yn orsaf heddlu i fod yn ganolfan addysg gerddorol

Copi Drafft

Dim gwrthwynebiad.

b) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0203/03/AM
Tir gyferbyn a chwarel Madog — Datblygiad trigiannol (4 ty deulawr ynghyd a darpariaeth parcio)
Angen mwy o wybodaeth.

c) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0184/03/AM
Tir ger Gwilan, Manod — Adeiladu dau dy a modurdai
Blaenau Ffestiniog — Dim gwrthwynebiad os ar gyfer anghenion lleol.

ch) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0191/03/TC
18 Stryd yr Eglwys — Defnyddio llawr isaf fel man
Blaenau Ffestiniog — gwerthu bwyd poeth i'w bwyta allan
Dim gwrthwynebiad

d) Cais Cynllunio Rhif NP5/59/524B
Garreg Lwyd, — Estyniad llofft llawr cyntaf
Ffestiniog — Dim gwrthwynebiad.

dd) Cais Cynllunio Rhif NP5/59/677A
Pandy, — Gosod pecyn gwaith Klargester i drin dŵr aflan
Ffestiniog — Dim gwrthwynebiad.

e) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0199/03/MG
Llain ger Encil, Manod — Manylion ty annedd deulawr ynghyd a darparu man parcio
Dim gwrthwynebiad.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD GYNGOR GWYNEDD

a) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0173/03/LL
2 Tanygrisiau Terrace — Cais ôl gweithredol i gadw lolfa haul i flaen yr annedd.
- Caniatáu

b) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0176/03/LL
3 Tanygrisiau Terrace — Lolfa Haul i flaen yr annedd bresennol.
- Caniatau

c) Cais Rhif:- CO6M/0175/03/LL
Cylch yr Efail
Blaenau Ffestiniog — Codi estyniad (Ystafell Gorffwys) ar weithdy
- Caniatáu

ch) Cais Rhif:- CO6M/0175/03/LL

Copi Drafft

10 Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog	Trosi siop a flat yn fwyty bistro - Gwrthod

Cafwyd trafodaeth ynglyn a diffyg ymateb i sylwadau'r Cyngor Tref gan yr Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd ac Adran Cynllunio'r Parc Cenedlaethol. Teimlwyd nad oedd pwrpas o'r Cyngor Tref yn rhoddi sylwadau os nad oes unrhyw sylw yn cael ei gymryd ohonynt. Rhoddwyd cynnig gan gynghorydd bod y Cyngor Tref yn ymestyn gwahoddiad i uwch swyddogion adrannau cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol i gyfarfod o'r Cyngor Tref er mwyn egluro'r drefn ynglyn a gwneud penderfyniadau cynllunio.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ymestyn gwahoddiad i uwch swyddogion o'r Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd a'r Adran Gynllunio, Y Parc Cenedlaethol i ddod a chyfarfod y Cyngor Tref.

6937/12/06 ADEILAD SWYDDFA'R CYNGOR

Cafwyd gwybodaeth bod Cymad Cyf., perchnogion yr adeilad, wedi derbyn cynnig gan Gwmni Adwy i brynu adeilad Swyddfa'r Cyngor. Bu i'r Cyngor Tref wneud ymholiadau ynglyn a phrynu'r adeilad yn ôl i'r dref a'i ddefnyddio fel canolfan hybu Blaenau Ffestiniog. Dealltwriaeth y clerc yw bod Cwmni Adwy yn fodlon cydweithio gyda'r Cyngor Tref a'r gobaith yw y bydd mwy o fanylion ar gael erbyn cyfarfod mis Ionawr.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

6938/12/06 INSTITIWT POBL IFANC

Derbyniwyd ymateb gan y Cynghorydd Ernest Williams, Cadeirydd, Institiwt Pobl Ifanc i gais Cyngor Tref am ad-daliad o'r arian a roddwyd iddynt. Bu trafodaeth eto ynglyn a'r ad-daliad yma gan nad yw'r YPI wedi cadw at amod a roddwyd gan y Cyngor Tref pan wnaethpwyd y rhodd arian, amod na wrthwynebwyd gan yr Institwt ar y pryd. Bu i'r Cynghorydd Williams ymestyn gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Is-bwyllgor i ymweld ag adeilad yr Institiwt.

PENDERFYNIAD: Gwrthod y cynnig gan y Cynghorydd Ernest Williams a'i hatgoffa nad yw'r Cyngor Tref mewn sefyllfa i drafod y mater ymhellach gan fod amod yn gysylltiedig â'r arian hwn. Mae'n angenrheidiol i'r Cyngor ddangos tegwch at eraill, gan gofio mai pres y trethdalwyr yw hyn, a mynnu cael ad-daliad o'r arian hwn a bygwth mynd ymlaen at Lys Man Ddyledion os na chaiff y Cyngor Tref ymateb dderbyniol gan y pwyllgor rheoli.

6939/12/06 CYNGOR GWYNEDD - CYFADRAN YR AMGYLCHEDD

Ymateb i lythyr y Cyngor Tref ynglyn ag arwydd peryglus ger Mynwent Ffestiniog. Cytunwyd gyda'r Cyngor Tref nad yw'r tro i'r fynwent o gyfeiriad Allt Goch yn ddelfrydol ac

Copi Drafft

mae'n golygu y bydd traffig yn aml yn gorfod croesi i'r lon arall er mwyn croesi i'r fynedfa. Oherwydd hyn, bwriad Cyngor Gwynedd yw codi arwydd 'Dim troi i'r chwith' i atal traffic rhag troi i'r fynwent o gyfeiriad Allt Goch. Golygai hyn y bydd yn rhaid i'r traffic droi yn ôl ym mhentref Ffestiniog i gael mynediad i'r fynwent.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

6940/12/06 ANTUR 'STINIOG

Llythyr cais wedi ei dderbyn gan y Cyngor Tref yn gofyn am lythyr cefnogaeth i'r grwp newydd yma. Grwp sydd wedi ffurfio yn Blaenau Ffestiniog gyda'r bwriad i ddatblygu cynllun cyffroes newydd o lunio traciau beicio mynydd a gweithgareddau awyr agored yn Nhanygrisiau gyda phwyslais ar Fynyddoedd y Moelwynion ydyw Antur 'Stiniog. Prif amcanion y cynllun yw:

- ? Datblygu canolfan beicio mynydd o safon ryngwladol a fydd yn addas ar gyfer cynnal cystadlaethau yn ogystal â defnydd hamdden.
- ? Sefydlu busnes a fydd o werth i'r gymuned leol, gan ddatblygu statws Blaenau Ffestiniog fel canolfan bwysig ar gyfer twristiaeth antur.
- ? Darparu cyflogaeth o ansawdd uchel a chyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc lleol.
- ? Buddsoddi unrhyw elw a wneir i ddatblygu'r busnes ymhellach ac i gefnogi mentrau cymunedol lleol eraill.
- ? Cynnwys anghenion defnyddwyr eraill y Moelwynion yn y cynllun, a gweithio i hybu ansawdd bywyd trigolion yr ardal.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gyrru llythyr o gefnogaeth i'r cynllun

Copi Drafft

6941/12/06 GWASANAETH IECHYD CYHOEDDUS CENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad am yr achos cryptosporiosis yng ngogledd orllewin Cymru yn 2005. Mae'r adroddiad yn rhoddi disgrifiad manwl o'r achos a sut y cafodd ei reoli. Cadarnhawyd 231 o achosion a oedd yn gysylltiedig â'r achos, gan olygu mai dyma'r achos fwyaf o salwch yn cael ei gludo gan ddwr yng Nghymru. Canfu'r ymchwiliad dystiolaeth a gysylltai'r achos a'r prif gyflenwad dwr o Lyn Cwellyn. Lluniwyd yr adroddiad hwn i roi gwybod i bobl am yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos. Ei fwriad yw bod yn ddefnyddiol i bobl sy'n byw yn yr ardal effeithiwyd arni yn ogystal â bod yn ddefnyddiol i swyddogion awdurdodau a chanddynt gyfrifoldeb am leihau effaith heintiad cryptosporidium ble bynnag y bônt. Mae mwy o fanylion ar gael eu gwefan www.nps.wales.nhs.uk

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6942/12/06 CYNGOR GWYNEDD - CYFADRAN ADNODDAU

Ers dechrau'r flwyddyn, sefydlwyd trefn newydd o ran delio a cheisiadau am wasanaeth yn ymwneud a chwn. Y bwriad oedd bod un swyddog, yn lle gwisgo het swyddog rheoli pla (60%) a hefyd het warden cwn (40%) fel sydd yn hanesyddol, yn canolbwyntio ar waith Warden cwn 100% a hynny drwy'r Sir.

Sefydlwyd rhaglen waith ac un amcan oedd sgwario'r cylch lle'r oedd nifer helaeth o batrolau wedi'u cofnodi ar y sustem ond bod y Cynghorau Thref a Chymuned a mudiadau eraill yn adrodd eu bod nhw byth yn gweld y warden.

I'r diben hwn, rhan o'r rhaglen waith oedd ymateb i'r Cynghorau Thref a Chymuned trwy drefnu ymweliadau ar y cyd fel bod y Clerc a/neu fwy o aelodau'r Cynghorau Thref a Chymuned yn medru dangos yn union le a beth oedd y problemau.

Mae'r rhaglen waith newydd, am wahanol resymau, wedi cael dechrau eithaf sigledig. Fodd bynnag mae Warden ychwanegol wedi ei benodi a gobeithir y bydd yn cysylltu â'r Cyngor Tref yn y dyfodol agos.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a chytuno i gydweithio gyda'r warden cwn er mwyn ceisio datrys y broblem enfawr hon.

6943/12/06 THE CLERK

Cylchgrawn Society of Local Council Clerks

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6944/12/06 CLEAR SITE

Cylchgrawn safle Trawsfynydd

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6945/12/06 CYFRIFON I'W TALU

PAYE	£ 219.63	Rhif Siec	000763
Arian Parod	£ 75.00	Rhif Siec	000764
Nefyn Cleaning (llochesi bws)	£ 321.82	Rhif Siec	000765
Blachere Illumination (Goleuadau Nadolig)	£ 6080.63	Rhif Siec	000766
Viking Direct (defnydd swyddfa)	£ 97.03	Rhif Siec	000767

Copi Drafft

Cyngor Gwynedd (Rhent Tir)	£	5.00	Rhif Siec	000768
Cyngor Gwynedd (Gwaith cynnal)	£	61.72	Rhif Siec	000769
Cyngor Gwynedd (Tynnu cadwyni goleuadau)	£	1089.81	Rhif Siec	000770
A Hughes (Goleuadau Nadolig)	£	60.00	Rhif Siec	000771
Remco Signs (Goleuadau Coeden)	£	471.76	Rhif Siec	000772

Rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu'r uchod.

6946/12/06 ARIAN A DDERBYNIWYD

Zurich £ 8031.71

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.30 yr hwyr.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD 11eg IONAWR 2007
AR 3ydd O IONAWR 2006

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR
NOS IAU 11eg O IONAWR 2007
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 yh

Copi Drafft

CADEIRYDD